

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 45 Tachwedd 7, 2024 50c.

TAIR BLYNEDD ANTURUS O'N BLAENAU

Rhagor o newyddion o Gyngor Undeb yr Annibynwyr a gynhaliwyd yn Llety Parc, Aberystwyth ar ddydd Mercher 23 Hydref

Ategodd Dyfrig Rees y croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol yn enwedig Annalyn Davies i gadair y Cyngor a hynny am gyfnod o dair blynedd. Dymunodd yn dda iddi yn ystod tymor ei chadeiryddiaeth. Dywedodd bod hi'n dymor newydd ar y Cyngor a'i fod yn awyddus iawn i ni ystyried cyfeiriad ein gweledigaeth a'n gweithgareddau yn ystod y tair blynedd nesaf.

Rydym angen creu map anturus er mwyn mentro mewn ffydd i'r dyfodol, meddai, gan nodi'r cyfle i gyflwyno penderfyniadau ar ddiwedd y cyfarfodydd. Dylid ystyried cyflwr enbydus y byd ar hunllefau sy'n digwydd yn Gaza. Cyfeiriodd at Gyfansoddiad yr Undeb a chyfrifoldeb y Cyngor yn y cyd-destun hwnnw.

MWY NA SIOP SIARAD

Mae'r Cyngor yn fwy na siop siarad gan fod ganddo gyfrifoldeb mawr wrth hyrwyddo gweledigaeth a llywio cyfeiriad yr Undeb a'i weithgareddau. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn – yn yr hydref ac yn y gwanwyn. A fyddai cyfarfod unwaith y flwyddyn yn ddigonol? Ar ôl trafod, penderfynwyd bod dau gyfarfod yn hanfodol er mwyn rhoi mwy o gyfle i drafod a symud materion ymlaen yn gynt.

PREGETHWYR CYNORTHWYOL NEWYDD

Cyflwynwyd adroddiad calonogol iawn gan y Cydlynnydd Hyrwyddo Gweinidogaethau, Carwyn Siddall. Bu'r chwe mis diwethaf yn gyfnod o lwyddiant gyda chysiau. Mynychodd 21 y modiwl 'Addoli a Phregethu' o dan arweiniad Carwyn ac Arfon Jones.



Cymeradwywyd tri fel pregethwyr cynorthwyol sef Sian Meinir, Arwyn Hughes a Megan Lloyd Williams. Y mae cydweithio yn digwydd rhwng y Bedyddwyr, y Presbyteriaid a'r Annibynwyr sy'n ein galluogi i roi graddau a chymwysterau uwch i fyfyrwyr pe bai galw am hyn. Gwych oedd clywed fod y Parchg Dylan Rhys wedi ei dderbyn i wneud cwrs gradd meistr mewn diwinyddiaeth gyda

Phrifysgol, Caerdydd. Bwriedir datblygu modiwlau ychwanegol ar fugeilio a gweddio. Cynhaliwyd diwrnod o hyfforddiant i bregethwyr cynorthwyol ac i eraill oedd â diddordeb yn Llety Parc ym mis Medi. Cyflwynodd y Parchg Beti-Wyn James ac Owain Llŷr Evans sesiynau gwerthfawr yno. Ceir rhagor o fanylion yn yr erthygl fydd yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o *Dyma'r Undeb*.

YMWELWYR HERIOL!

Ar ddechrau Medi mewn cydweithrediad â CWM, daeth criw o ferched i ymweld â Chymru o dan arweiniad y Parchg Dr Amelia Koh-Butler (*llun*) sy'n weinidog yn Awstralia. Treuliasant amser yng Ngholeg y Bala a

parhad ar dudalen 7



Y PARCHEDIG JIM CLARKE

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth y Parchg Jim Clarke. Bu'n was ffyddlon i'r Arglwydd fel gweinidog gydag Eglwys Bresbyteriaid Cymru, fel



warden Coleg y Bala ac yn eglwys Annibynnol Ebeneser Llanfairpwllwngyll. Cydymdeimlwn gyda'i feibion Dewi a Gwion a'r teulu cyfan yn eu galar a'u hiraeth.

CYNGOR YR UNDEB YN GALW AM GADOEDIAD AR FYRDER

Rhaid trefnu cadoediad ar fyrder i roi stop ar y rhyfel yn y Dwyrain Canol. Dyna neges Cyngor Undeb yr Annibynwyr mewn llythyrau personol at wleidyddion blaenllaw. Dywedodd Annalyn Davies, Cadeirydd y Cyngor:



'Rydym yn arswydo o weld y lladdfa a'r dinistr sy'n digwydd yn Israel, Gaza a gwlad Libanus.

Mae Cyngor yr Undeb wedi ysgrifennu'n bersonol at nifer o wleidyddion i alw am gadoediad, er mwyn dechrau trafodaethau gyda'r nod o sicrhau heddwch parhaol yn Israel a'r cyffiniau. Rydym yn llawn sylweddoli y byddai hynny'n broses eithriadol o anodd. Ond dyna'r unig ffordd i roi terfyn ar y gwrthdaro oesol yn y rhan yna o'r byd, er lles yr Israeliaid a'r Palestinaid, a phobl gyffredin yng ngwlad Libanus ac Iran sydd nawr yn dioddef oherwydd bod y rhyfel yn lledaenu.'



HAWL I FARW?

‘Duw piau edau bywyd, a’r hawl i fesur ei hyd?’ Yn ôl Dignity in Dying, mae’r rhan helaethaf (84%) ohonom yn credu mai nyni’r sydd piau edau ein bywyd, a phan fo’r bywyd hwnnw’n darfod mae ein hawl ninnau yw mesur ei hyd.

Debbie Purdy; Diane Pretty; Omid T; Tony Nicklinson; Paul Lamb; Noel Conway ... bu’r rhain i gyd brwydro am yr hawl i farw. Defnyddiaf Noel Conway fel enghraifft o’r frwydr a fu’n gyffredin iddynt i gyd a sawl un arall.



Yn 67 mlwydd oed, cafodd Mr Conway (yn y llun) ddiagnosis o glefyd motor niwron yn 2014. Hyd ei farw yn 2021, bu’n ymgychu i newid y ddeddfwriaeth gyfredol er mwyn caniatáu i unigolyn sydd yn llusgo byw i ddod a’i fyw i derfyn, neu i gael cymorth arbenigol i wneud hynny. Mynnai Mr Conway: ‘I have a right to determine how and when I die and I want to do so when I have a degree of dignity remaining to me.’ Cefnogwyd ef, a phob un o’r bobl a enwyd uchod gan y mudiad Dignity in Dying: ‘Noel’s experience,’ meddai Sarah Wooton, prif weithredwr Dignity in Dying, ‘sadly echoes that of hundreds of other terminally ill people in this country – choice and control at the end of life is something that everyone should be able to have.’

Moesoldeb lladd

Gellid dadlau, yn naturiol ddigon, mai cwbl anfoesol yw pob lladd; ond, onid yw lladd yn anfoesol, oherwydd bod y person sydd yn cael ei ladd heb ddymunio cael ei ladd? Os yw person yn dymuno cael ei ladd, nid yw’r lladd, o’r herwydd, yn anfoesol. Gan ychwanegu at hyn, nodaf y

ddadl mai mater o ryddid ewyllys yw bod hawl gan unigolyn i ddod a’i fyw i derfyn, neu yn achos Noel Conway, gofyn i feddyg ei gynorthwyo i wneud hynny. Ni ddylid amddifadu’r un bod dynol o’r rhyddid hwn, byth. Hanfod ein hurddas yw bod gennym reolaeth dros amseru a dull ein marw. Wrth amddifadu person yn ei waeledd olaf o’r hawl i benderfynu pryd, a sut i ddod a’i fywyd i ben, amddifadwn ef o bob urddas. Ond, ydi derbyn cymorth i farw, go iawn, yn fynegiant o ryddid ewyllys? Yn wir, gellid dadlau fod derbyn cymorth i farw yn amddifadu’r unigolyn rhag pob rhyddid a chyfle! Nid mynegiant o ryddid ewyllys yw dewis marw, ond y gwrthwyneb hollol.

Trugaredd?

Myn rhai athronwyr nad oes ynom reddf naturiol i fyw, ac o’r herwydd, trugaredd yw caniatáu i unigolyn yn ei waeledd olaf, ac yntau yn ei iawn, a llawn bwyll, o dan amodau diogel, yr hawl i farw, neu i dderbyn cymorth i farw. Ond eto mae ‘ond’! Oni ddylid, yn hytrach sicrhau fod poen yn cael ei rheoli, hyd yn oed os mai sgil effaith y cynyddu graddol o

boenladdwyr yw cyflymu diwedd byw? Mewn ymateb i hyn, dylid gofyn o ddifri, a oes gwahaniaeth rhwng prysuro marw’r claf yn anuniongyrchol a gwneud hynny’n uniongyrchol drwy estyn iddo’r hawl i ddod â’i fyw i derfyn, neu i arall ei gynorthwyo?

Gwerth bywyd

Beth ddywed y ffydd Gristnogol am hyn oll? Crëwyd ni gyd ar ddelw, ac yn ôl llun Duw (Genesis 1:26) – dyna hyd a lled, uchder a dyfnder y bywyd dynol. Gwraidd ein gwerth fel person, yw nid mesur pobl eraill ohonom, nac ychwaith ein mesur personol ohonom ni’n hunain, ond deall Duw am werth ein byw. Nid ni sydd â’r hawl i ddiffodd y bywyd a grëwyd gan Dduw, boed bywyd arall, neu’n bywyd ein hunain. Gan dderbyn grym y ddadl hon, mae’n rhaid codi cwestiwn y merthyron. Ildiodd y merthyr ei fywyd o’i wirfodd – bywyd a grëwyd ar ddelw, ac yn ôl llun Duw – er clod i Dduw. Ond, marw er mwyn cadarnhau gwerth bywyd mae’r merthyr! Rhaid cofio, nad gwadu gwerth bywyd mae’r merthyr; y sawl sydd yn lladd y merthyr sydd yn gwadu gwerth bywyd.

Hanfod neges ffydd

Mae’r Cristion yn credu nad bedd mo diwedd byw; mae marw’n ddechreuad newydd. Onid yw hyn, ynddo’i hun yn ddadl o blaid hawl unigolyn yn ei waeledd olaf i ddod â’i fyw i derfyn, yn arbennig os yw’r unigolyn, oherwydd ei gyflwr, bellach yn gwbl analluog i ymroi i’r gwaith o brysuro dyfodiad teyrnas Dduw?

Wedi pendilio yn ôl ac ymlaen, gellid dadlau’n ddigon diogel mae hanfod neges ffydd yw bod ein bywyd yn amhrisiadwy i Dduw; o’r herwydd, yn a thrwy eni, gweinidogaeth, marw ac atgyfodiad Iesu ddaeth Duw i berthynas annatod â’r ddynoliaeth, ac o’r herwydd mae bywyd – fy mywyd i a’th fywyd dithau – yn gysegredig. Nid ar chwarae bach felly, y dylid caniatáu i berson, o’r amcanion gorau, i ddod a’i fyw i derfyn, gan mae eiddo Duw pob bywyd dynol.

Dadleuon ffydd yw’r rhain wrth gwrs, ac fe wnânt synnwyr dim ond i berchen ffydd. Nid oes disgwyl iddynt fod yn berthnasol i bobl nad sydd yn credu’r un fath, neu’n credu o gwbl; ond dw i’n gwbl sicr fod y ddeddfwriaeth mae mudiadau fel Dignity in Dying yn gwrthio amdano yn tyllu i’r seiliau yr adeiladwyd ein diwylliant arnynt, gan araf grebachu ein hawydd i fod yn foesol, a’n gallu i wybod beth yw bod yn foesol. Mae hyn yn berthnasol i bawb, boed yn berchen ffydd ai pheidio.

Deddfwriaeth beryglus

I mi, felly eithriadol beryglus yw’r symud tawel hwn tuag at ddeddfwriaeth a fydd yn caniatáu i unigolyn – sydd yn llusgo byw – yr hawl i ddod â’i fyw i derfyn, neu i gael cymorth arbenigol i wneud hynny. Mae ein byw yn drysor gan Dduw. Duw sydd biau fy mywyd i, ac nid oes gen i mor hawl i ddileu’r bywyd hwnnw, na gofyn i arall i’n cynorthwyo i wneud hynny. Dyma fy safbwynt, safbwynt a fynegir â’m hanwyliaid bob un, a finnau’n holliach. Pe bai fy amgylchiadau’n newid, a’u hamgylchiadau hwythau’n newid a fuasai fy safbwynt yn newid? Wel, cystal cyfaddef, efallai wir.

Owain Llŷr Evans

[Troednodyn: Bu’r Parchg Aled ap Gwynedd, cyfrannwr cyson i’r *Tyst*, farw o glefyd motor-niwron yn 60 oed yn 2003. Ychydig wythnosau cyn ei farw darlledwyd rhifyn arbennig o’r *Byd ar Bedwar* lle bu Aled, cyn colli’r gallu i siarad, yn dadlau’n gadarn yn erbyn ewthanasia, sef yr hyn sy’n cael ei alw’n ‘hawl i farw’ heddiw, am ei fod yn ystyried bywyd yn sanctaidd. - Gol.]

‘O’r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi ...’

150 mlynedd ers geni William Nantlais Williams a 120 ers ei eni o’r newydd

Pan aned Nantlais yn Llawr-cwrt Gwyddgrug, ger Pencader, sir Gaerfyrddin, yn 1874, dim ond pymtheg mlynedd oedd yna er Diwygiad 1859, ac mae’n debyg bod dylanwad y deffroad hwnnw ar ei deulu. Yn fab i Daniel a Mari Williams, a’r ieuegaf o ddeg o blant, fe’i prentisiwyd gyda gwehydd yn 12 oed. Ond wedi iddo gymryd at bregethu yn 1894, aeth yn fyfyrwr lled aeddfed i Ysgol Ramadeg Castellnewydd Emlyn ac yna i Goleg Trefeca, coleg y Methodistiaid Calfinaidd yn y de, i baratoi, fel llawer o lanciau ifanc eraill ar droad yr 20fed ganrif, ar gyfer y weinidogaeth.

Cymerodd Nantlais ddiddordeb mewn barddoniaeth yn ifanc a chyhoeddodd gasgliad o’i gerddi, *Murmuron y Nant* (1898), tra oedd yn fyfyrwr yn Nhrefeca. Yn 1899 y cysylltwyd ei enw gyntaf â Rhydaman, lle byddai’n treulio gweddill ei fywyd a lle digwyddodd y fath ‘newid rhyfeddol’ iddo. Yn y flwyddyn honno yr enillodd gadair farddol dan feirniadaeth Watcyn Wyn mewn eisteddfod yn Rhydaman. Yna yn 1900, ac yntau’n dal yng Ngholeg Trefeca, derbyniodd Nantlais alwad i fod yn weinidog ar Eglwys Bethany, Rhydaman, eglwys oedd newydd ei sefydlu yn y dref, ac fe’i hordeiniwyd ef yn 1901. Bu’n weinidog ym Methany o 1900 hyd ei ymddeoliad yn 1944.

Uchelgais Nantlais ar ei ordeiniad, yn ôl ei addefiad ei hun, oedd pregethu mewn cyfarfodydd pregethu a llwyddo fel bardd mewn cystadlaethau eisteddfodol. Ac yn wir roedd galw mawr arno i bregethu yn yr uchel wyliau.

Diwygiad 1904/1905

Yn 1904, daeth tro mawr ar fyd i Nantlais wrth i’r Diwygiad oedd wedi dechrau draw yng nghyffiniau sir Aberteifi gwta chwe wythnos ynghynt (Capel Blaenannerch ar 29 Medi, a bod yn fanwl) ymledu a chyrraedd Rhydaman ar benwythnos cyntaf Tachwedd, 120 o flynyddoedd yn ôl. Yno, ac yntau’n dal yn las weinidog a’i fri ar wneud enw iddo’i hun, daeth Nantlais dan argyhoeddiad nerthol, nerthol iawn.



Llun a dynwyd o’r beirdd yn Rhydaman, 25 Awst 1904, 120 mlynedd yn ôl. Yn y cefn, o’r chwith: Gwili, Eben Aman Jones, Nantlais a George O. Williams; ac yn y rhes flaen: Gwydderig, Watcyn Wyn a J. T. Job

Yn ystod penwythnos Tachwedd 4–6, roedd Joseph Jenkins wedi cael gwahoddiad i arwain cyfarfodydd y Diwygiad oedd wedi lledu i Rydaman. Roedd gan Joseff Jenkins yntau ei ran i’w chwarae yn nechrau’r Diwygiad. Yn 1903 mynychodd gynhadledd efengylaidd yn Llandrindod, cynhadledd o’r enw ‘Keswick in Wales’. Ac wedi’i ddadurthio gan sefyllfa ysbrydol a chenhadol yr eglwys dan ei ofal (fel ei nai John Thickers, oedd yn weinidog yn Aberaeron ar y pryd), cychwynnodd gyfarfodydd arbennig yn dilyn oedfa’r bore yn ei eglwys yng Ngheineuwydd, lle gwelwyd rhagflas o’r hyn fyddai’n cael ei danio yn Niwygiad 1904. Er enghraifft, roedd Florie Evans, un o’r bobl ifanc yng Ngheineuwydd, wedi codi cynnwrf ysbrydol ymhlith ei chyfoedion yn un o’r cyfarfodydd hynny wrth godi ar ei thraed a gweiddi: ‘Dw i’n caru Iesu gyda’m holl galon’. Roedd yn arwydd o galonnau lawer a fyddai’n cael eu trawsnewid.

Dyna ddigwyddodd i Nantlais ei hun ar y penwythnos cyntaf hwnnw ym mis Tachwedd 1904 yn Rhydaman. Roedd yr oedfaon yn mynd ymlaen tan 2 a 3 o’r gloch y bore, a’r cyfan mor fendithiol o drefnus, meddai Nantlais ei hun: “Dim

ond gorfoleddu a phawb mewn harmoni â’i gilydd.”

Dyma’r digwyddiad y mae John Thickers yn cyfeirio ato yn ei lyfr *Emynau a’u Hawduriaid*, gan gyfeirio at drôedigaeth Nantlais yn Nhachwedd 1904, “Ymwelodd yr Arglwydd yn rasol ag ef yn Niwygiad 1904–5, a rhoes yntau heibio gystadlu mewn eisteddfodau.” Dyma’r profiad a arweiniodd Nantlais i gyfieithu emyn Saesneg R. H. McDaniel, “What a wonderful change in my life has been wrought, / since Jesus came into my heart” â’r geiriau cyfarwydd: “O’r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi, / daeth Iesu i’m calon i fyw.”

Fu Nantlais byth yr un fath wedyn. Roedd wedi ei eni o’r newydd, a phenderfynodd gysegru ei fywyd o’r pryd hwnnw i efengylu a meithrin bywyd ysbrydol yr eglwys. Ar ôl y Diwygiad daeth Nantlais ei hun i gysylltiad â’r personoliaethau blaenllaw a fynychai’r cynadleddau efengylaidd blyneddol yn Keswick a Llandrindod, ac yn 1917 sefydlodd gynhadledd flynyddol o’r un anian yn Rhydaman. Dyma Gynhadledd y Sulgwyn, Rhydaman, a gynhaliodd draddodiad o bregethu efengylaidd a diwygiadol hyd ddiwedd yr 20fed ganrif. Bu ei lafur ym

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

'O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi ...'
150 mlynedd ers geni William Nantlais
Williams a 120 ers ei eni o'r newydd
(parhad o dudalen 1)

Methany yn foddion i ddwyn llawer o ffrwyth; i wasanaethu'r twf yno fe godwyd ysgoldy ym Mhantffynnon yn 1904, ac un arall yn Nhir-y-dail yn 1906, ac eglwys yno yn 1911. Adeiladwyd capel newydd ar safle Bethany yn 1930.

Llafur llenyddol

Er i Nantlais ymatal rhag cystadlu mewn eisteddfodau ar ôl y Diwygiad, parhaodd i ysgrifennu, gan gysegru ei ddoniau a'i farddoniaeth wedi hynny i ledaenu'r Efengyl. Cyhoeddodd hefyd nifer o ganeuon i blant ynghyd â gweithiau cerddorol eraill. Ni chollodd mo'i ddawn fel bardd telynegol ychwaith, er iddo ymwrthod â chystadlu, fel y dengys ei gasgliad o delynegion, *Murmuron newydd* (1926), a'i rigymau i blant, *Darlun a chân* (1941). Cyn diwedd ei oes, ar gyfrif ei gyfraniad llenyddol, cafodd radd MA er anrhydedd gan Brifysgol Cymru.

Cyfansoddodd lawer o emynau i blant; yn wir, prin y bu neb yn fwy llwyddiannus nag ef fel emynydd i blant. Cyhoeddwyd yr emynau hyn mewn tri chasgliad: *Moliant Plentyn*, rhan I (1920) a rhan II (1927), a *Clychau'r Gorlan* (1942).

Ceir trafodaeth arno fel emynydd a bardd, ynghyd â rhestr o'i holl gynhyrchion o'r wasg, yn *Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru*, I, rhif 4 (1971), tud. 77-99. Ysgrifennodd lawer i'r llu cylchgronau a olygwyd ganddo, ac i'r *Goleuad*. Ei gyfraniad ysgrifenedig olaf yw ei atgofion a ysgrifennodd yn 1955 a'u cyhoeddi yn 1967 dan y teitl, *O gopa Bryn Nebo*.

Roedd gan Nantlais hefyd faich arbennig dros Gristnogion Cymraeg y Wladfa a bu'n gohebu am flynyddoedd ag Eluned Morgan o Batagonia. Yn 1938, ar ei gwahoddiad, fe aeth Nantlais ar daith bregethu yno am dri mis. (Mae'r ohebiaeth rhyngddo ac Eluned Morgan yn *Tyred drosodd*, 1977, a olygwyd gan Dafydd Ifans.)

Nantlais y diwinydd Cristnogol a'r arweinydd enwadol

Roedd Nantlais yn byw mewn oes a welodd Gymru'n troi yn erbyn ei diwinyddiaeth Galfinaidd draddodiadol, a seciwlaeriaeth yn magu gafael cryfach ar bobl Cymru ac ar ei enwad ei hun. Ofn Nantlais oedd i'r enwad lacio'i afael ar seiliau athrawiaethol y Diwygiad Methodistaidd. Gwrthwynebai Nantlais yn ffyrnig unrhyw bwyslais oedd yn cynnwys elfennau a fyddai o bosib yn gollwng gafael ar y ddiwinyddiaeth a etifeddwyd gan y tadau Methodistaidd, neu o leiaf yn ei llacio, e.e. dwyfoldeb Iesu Grist, atgyfodiad

corfforol Iesu Grist, credu yn y gwyर्थiau, awdurdod y Beibl ac mai Iesu Grist ydyw'r unig ffordd at Dduw.

Daeth Nantlais yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn 1940 ac i gadair Sasiwn De Cymru yn 1943.

Gwaddol personol Nantlais

Mab Nantlais oedd y Prifathro Rheinallt Nantlais Williams (1911-93), darlithydd a Phrifathro'r Coleg Diwinyddol, Aberystwyth, ac un o athronwyr praffaf ei genhedlaeth. Wyr Nantlais ydy'r Athro Stephen Nantlais Williams, Athro Emeritws Coleg y Frenhines, Belfast. Bellach, mae Stephen ymhlith athronwyr Cristnogol amlyca'r byd. Mae plant Stephen yntau i gyd yn dilyn yr un gwersyll â'u hen daid ac yn ymroi yng nghenhadaeth Eglwys Iesu Grist. Bu Matthew, ei fab, yn gwneud gwaith cenhadol yn Malawi, yn ddiwinydd yng Nghaergrawnt ac erbyn hyn mae'n cyflawni gwaith cenhadol arloesol yng Ngogledd Iwerddon (Fe'i gwelsom ar raglen *Songs of Praise*, 6 Hydref 2024). Olyniaeth dda yn wir i'r gwehydd 12 oed o Lawr-cwrt, Gwyddgrug, Pencader.

W. Bryn Williams
Pwllheli

(Addaswyd o ddarlith ddiweddar yn Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd i gofio 150 mlynedd ers geni Nantlais)

Gweddi dros Affrica Is-Sahara

Mae eglwys Affrica yn gofyn inni sefyll gyda nhw yn erbyn erledigaeth dreisgar.

Mae miliynau o Gristnogion yn Affrica Is-Sahara yn wynebu erledigaeth dreisgar oherwydd eu ffydd. Yn ôl ymchwil Rhestr Gwyllo'r Byd y mudiad Open Doors, roedd dros 90% o'r Cristnogion a laddwyd oherwydd eu ffydd y llynedd yn byw yn Affrica Is-Sahara. Yn ogystal, cynyddodd nifer y gwledydd yn Affrica Is-Sahara a gofnododd lefelau uchel iawn o drais yn erbyn Cristnogion, o 13 yn y flwyddyn flaenorol i 15 y llynedd. Mae'r trais cynyddol hwn yn cael ei yrru'n bennaf gan eithafwyr Islamaidd sy'n manteisio ar ansefydlogrwydd gwleidyddol yn y rhanbarth.

"Pan ddaw'r terfysgwyr i eglwysi a dod o hyd i Gristnogion, maen nhw'n dweud wrthynt nhw fod amser Cristnogaeth ar ben, ac y dylen nhw droi at y grefydd Islamaidd," meddai'r Parchedig Soré yn Burkina Faso. Bu'n rhaid iddo ef a'i deulu ffoi rhag

Open Doors

GWEDDI DROS AFFRICA IS-SAHARA

GWEDDI'WCH DROS


1. Amddiffyn Cristnogion rhag ymosodiadau milwriaethus treisgar
2. Cyfiawnder trwy erlyn ymosodwyr yn deg
3. Adferiad ac iachâd ar gyfer yr holl gymunedau yr effeithir arnynt

eithafwyr Islamaidd, ac maent bellach yn byw mewn dwy babell mewn ardal ynysig gydag aelodau bregus eraill o'u cymuned. "Maen nhw'n rhybuddio Cristnogion i roi'r gorau i gynnal gwasanaethau. Ar ôl rhybudd, pan fyddan nhw'n dod yn ôl yn ddiweddarach ac yn dod o hyd i chi yn yr eglwys, maen nhw'n eich lladd chi."

Yn ôl ymchwil Open Doors, mae 16.2 miliwn o Gristnogion yn Affrica Is-Sahara yn cael eu dadleoli gan drais a gwrthdaro. Ond mae'r Parchedig Soré yn parhau i fod yn hyderus yn yr Iesu. "Rwy'n credu ein bod ni wedi ein dadleoli, ond nid yw'r Iesu wedi'i ddadleoli o'n bywyddau ac ni fydd hynny byth yn digwydd," meddai. "Mae bob amser gyda ni."

Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr

gan Gareth Lloyd Jones
(Cyhoeddiadau'r Gair)



Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones

9 ‘Boas a’r henuriaid yn annerch ei gilydd’
(Ruth 4:9–12)

Yn ystod y ddwy astudiaeth ddiwethaf, fe welsom nad ydy’r gorffennol yn gorfod llywodraethu’r presennol na’r dyfodol chwaith. Fe welsom fod cynllun Naomi ar gyfer Ruth ym mhennod 3 yn benderfyniad oedd yn mynd i’r afael â sefyllfa’r ddwy ohonyn nhw. Gwelsom sut roedd Naomi wedi ei thrawsnewid o fod yn wraig weddw drist a chwerw i fod yn wraig sy’n llawn disgwyliaidau a gobaith am y dyfodol. Roedd Naomi eto’n wraig fyddai’n medru gwisgo ystyr ei henw unwaith yn rhagor, sef ‘prydfferthwch. Gwelsom hefyd fod yr achubwr dienw wedi gweld bargaen ym mhrynu’r tir oedd yn eiddo i deulu Naomi ond y byddai cymryd y merched dan ei ofal yn costio iddo. Ac felly gwrthod y cynnig a wnaeth, gan drosglwyddo’r hawl yn ffurfiol i Boas.

O’r dechrau, roedd ffyddlondeb a charedigrwydd Ruth i’w mam yng nghyfraith wedi cyffwrdd Boas ac o’r fan honno y mae ei gariad tuag ati’n tyfu. Gofal amdano’i hun oedd gan y perthynas dienw, ond cyflawni gweithred anrhydeddus a hyfryd oedd bwriad Boas.

Felly ym mhennod 4, adnodau 9–10, mae Boas yn troi oddi wrth y ‘perthynas agosaf’ ac yn cyfarch henuriaid y dref.

Mae’n galw arnynt i fod yn dystion iddo gymryd meddiant o eiddo Elimelech, gŵr Naomi a thad Mahlon a Chilion. Ond mae Boas hefyd yn cadarnhau gweithred arall sy’n gysylltiedig â’r pryniant, sef sefyllfa’r ddwy wraig weddw: Ruth y Foabes a Naomi, ei mam yng nghyfraith. Clywn gadernid geiriau Boas drwy alw’r henuriaid yn dystion ei fod ‘hefyd wedi prynu Ruth y Foabes, gweddw Mahlon, yn wraig imi’.

Ymateb yr henuriaid a phawb arall oedd yn y porth oedd dymuno bendith ar ben bendith i Boas a Ruth. Maent yn cyfeirio at Fethlehem â’r hen enw, Efrata, hefyd. Diddorol ydy ystyr Hebraeg Efrata, sef ‘ffrwythlondeb cyflawn’. Dydy’r henuriaid ddim yn dal dim yn ôl o’u dymuniadau da, gan gymharu Ruth yma hefo Rachel a Lea, y ddwy a roddodd enedigaeth i feibion Jacob. Ac fel pe na bai’r gymhariaeth honno yn ddigon, mae adnod 12 yn cynnwys cyfeiriad at wraig arall, sef Tamar. Fel Ruth, cafodd amgylchiadau ac enw Tamar hithau eu hadfer (Genesis 38:6–29) ac mae hithau eto, fel Ruth, yn cael ei chynnwys yn achau Iesu Grist ym Mathew 1:3–5.

Cwestiwn i’w drafod

Pa le sydd yn yr hanes hyd yn hyn i amynedd ac ufudd-dod?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 10 Tachwedd am 7:30yh – Sul y Cofio
Nia Roberts sy’n cyflwyno rhaglen arbennig i nodi Sul y Cofio o Eglwys Gatholig San Pedr, Caerdydd. Bydd y canu mawl dan arweiniad Delyth Medi Lloyd, gyda Jeff Howard yn cyfeilio ar yr organ. Cawn fwynhau perfformiadau gan Siwan Henderson, Cantorion Osian Rowlands a Bechgyn Bro Taf.

radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 10 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Geraint Morse
Oedfa Radio Cymru
Sul, 10 Tachwedd, am 12:00yp
Oedfa dan arweiniad Siân Howys a Ffion Fielding o Brosiect Hawlio Heddwch

Y MUNWCH CYDA NI AM STORI A HWYL

EIN STORI NESAF FYDD

CAETHWAS YN YR AIFFT

www.ysgolsul.com

CROESO CYNNES I BAWB

SESIWN 9


GENESIS 37:12-36: 45:1-7





Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

Y LENNYS YN LLUNDAIN – DDOE A HEDDIW



Eglwys Gymraeg Canol Llundain

St Anne's Soho

Rhwng y ddwy oedfa fe gerddais tua'r de ar brynhawn heulog, braf lawr i eglwys St Anne's yn Soho. Bu'n eglwys enwog am safon ei chanu. Yn 1708 fe wnaeth ei chyfarwyddwr cerdd, Dr William Croft, gyfansoddi'r dôn 'St Anne' sy'n gyfeiliant i'r geiriau 'O God Our Help in Ages Past' gan Isaac Watts, a droswyd fel, 'O Dduw Ein Nerth Mewn Oesoedd Gynt' gan J. C. Davies (*C.Ff.61*). Cafodd corff yr eglwys ei chwalu gan fomiau yn y *Blitz* yn 1940, ond saif y tŵr nodedig a godwyd yn 1807 o hyd, gydag ychwanegiad modern lle bu'r hen eglwys gynt.

Pererindod bersonol

Roeddwn yn St Anne's ar bererindod bersonol. Yno, ym mis Ebrill 1827, y priodwyd William a Mary Lenny, fy hynafiaid i a'm cefnder, y Parchg Andrew Lenny. Daeth fy ngwraig Ann o hyd iddynt trwy fynd yn ôl yn fanwl iawn fesul dwy ganrif o dystysgrifau geni, priodi a marw, cofnodion bedydd ac ambell adroddiad papur newydd. Pobl dlawd iawn yn byw yn slymiau canol Llundain oedd y Lennys. Mae eu hanes ar brydiau yn dorcalonnu. Bu farw William yn 35 oed o TB, gan adael Mary gyda phedwar o blant bach. Pan oedd un o'r rheini, Robert Lenny yn 13 oed, cafodd ei gyhuddo o geisio dwyn plwm. Yn ôl adroddiad papur newydd: 'He was found guilty of ripping lead with the intent to steal. Sentenced to a month in prison and a whipping.' Hoffwn feddwl mai ymgais i gael arian i gynnal ei fam weddw a'i chwiorydd oedd bwriad y drosedd honedig.



Capel St Anne's, Soho

Ar Sul olaf mis Hydref cefais y fraint o ateb gwahoddiad i bregethu yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain, sydd - fel mae'r enw'n awgrymu - yng nghanol y briffddinas fawr honno yn Eastcastle Street, rhwng Oxford Circus a Tottenham Court Road, un stryd fer i'r gogledd o'r A40, y brif hewl o orllewin Cymru i Lundain gynt. Ffurfiwyd yr eglwys yn 2006 pan unwyd Eglwys y Bedyddwyr Castle Street, ag Eglwys Annibynnol Y Tabernacl, King's Cross a Radnor Walk, Chelsea. Doeddwn i ddim wedi bod yn Llundain ers 2007, a braf oedd mwynhau cwmni'r gweinidog y Parchg Rob Nicholls a chynulleidfa wresog o addolwyr yn ystod oedfaon y bore a'r hwyr, ac wrth gymdeithasu wedyn.



Tua diwedd Oes Victoria fe ymfudodd rhai o'r Lennys i'r Rhondda, a'm tad-cu Charles Lenny i Frechfa, gan sefydlu cangen newydd o Lennys sydd nawr bron i gyd yn byw yn nhre Caerfyrddin a'r cyffiniau.

Tua diwedd Oes Victoria fe ymfudodd rhai o'r Lennys i'r Rhondda, a'm tad-cu Charles Lenny i Frechfa, gan sefydlu cangen newydd o Lennys sydd nawr bron i gyd yn byw yn nhre Caerfyrddin a'r cyffiniau.

Troedio llwybr hynafiaid

Pan es i mewn i gapel cyfoes bychan St Anne's, roedd Mwslim yno mewn un cornel ar ei benliniau ar ei garped gweddi. Eisteddais innau'n dawl hefyd gan fyfyr

am Lennys Llundain a gweddio dros y Lennys presennol. Wrth iddo adael, fe wnaeth y Moslem arwydd heddwch wrth fynd heibio i mi. Fe wnes i adael tawelwch y capel a cherdded allan i brysurdeb swnllyd y strydoedd ar gyrion Chinatown, sy'n ardal boblogaidd gan dwristiaid. Wrth gerdded 'nôl i gyfeiriad Charing Cross Road, fe wnes i groesi Greek Street lle roedd William a Mary Lenny'n byw ddwy ganrif yn ôl. Beth feddyliant petai nhw'n gwybod y byddai disgynnydd iddynt yn ymweld â'u hardal hwy, yn cofio amdanynt, ac yno i bregethu mewn capel Cymraeg i fyny'r ffordd o'u cartref yn y flwyddyn 2024?

Alun Lenny

APÊL AM LYFR EMYNAU

Annwyl Olygydd

Mae ffrind o'r Wladfa yn chwilio am gopi hen nodiant o'r Caniedydd Cynulleidfaol (1895). Tybed oes gan un o'ch darllenwyr gopi sbâr yn rhywle? Mae angen y copi ar Amgueddfa/ Capel Moreia yn Nhrelew - sef yr ail gapel adeiladwyd. Mae'r copi oedd yna wedi gwisgo .

Yn gywir,
Ceris Gruffudd

(Os oes un gennych i'r gyfrannu, cysylltwch â Thŷ John Penri 01792 795888 undeb@annibynwyr.cymru)

Dyweddïad



Llongyfarchiadau mawr iawn i'r Parchedig Rhys Locke ar ei ddyweddïad gydag Elin Morgan. Dymunwn fendith y nef ar eu bywyd gyda'i gilydd.

Barn Annibynnol

Y gorau erioed

Petawn i'n gofyn ichi feddwl am afr, efallai y byddai rhai ohonoch yn bloeddio 'Oes gafr eto' a byddai eraill ohonoch yn cofio gweld geifr ar lethrau (a strydoedd!) Llandudno. Wel, yn ddiweddar deuthum ar draws y gair mewn cyd-destun gwahanol yng nghwmni ieuencid oedd yn defnyddio nifer o eiriau sydd â deuoliaeth i'w hystyr. Fe ddysgais lawer, yn cynnwys yr *acronym* G.O.A.T. sef 'Greatest. Of. All. Time.'

Cofiaf innau weld, yn Oriel Gelf Lady Lever ar Lannau Merswy, ddarlun gan Holman Hunt o afr fel symbol o Grist yn 'tynnu ymaith bechodau'r byd.' (Ioan 1: 29) Mae'r afr mewn diffeithwch a gwendid mawr, a'r edafedd coch o amgylch ei ben yn dynodi'r goron ddrain. Diddorol yw'r dewis a wnaeth Holman Hunt o baentio gafr ac nid oen; eto, mae'r ddelwedd yn cyd-fynd yn ddelfrydol gyda'r *acronym* a'n cred ni fod Iesu wedi'i aberthu dros bawb, a phawb ohonom yn G.O.A.T. yng ngolwg ein Duw.



Pawb ynghyd

Ry'n ni'n byw mewn cymdeithas sy'n rhoi pwys mawr ar gyflawni a llwyddiant ac mae tueddiad i roi mwy o le i'r rhai sy'n 'gallu gwneud'. Gwerthfawrogn y rhai hynny wrth gwrs, ond hefyd dylem fod yn gynhwysol a chynnes tuag at bawb yn ein hoedfaon. Dysgodd Iesu inni fod y lleiaf yn ein plith yn bwysig a bod angen inni estyn ein breichiau i gofleidio ein gilydd. I'r cof daw cymeriad annwyl Seth (*Rhys Lewis*, Daniel Owen), a'i anghenion dysgu dwys, yn adrodd yr un adnod dro ar ôl tro: 'Iesu Grist, ddoe a heddiw yr un, ac yn dragywydd.' (Hebreaid 13: 8)

Darllenais y gyfrol newydd *Dynol Iawn: Profiadau unigolion o ADHD ac Awtistiaeth* (gol. Non Parry, Y Lolfa, 2024) a chael agoriad llygad ar gyflyrau a gawsant eu hesgeuluso a'u camddehongli yn y gorffennol. Gall heriau'r cyflyrau hyn fod yn anweledig ac fe all unrhyw ddifffyg dealltwriaeth dorri ysbryd pobl, felly mae gweithio'n gydweithredol fel aelodau eglwysig tuag at fod yn gynhwysol yn allweddol bwysig.

Sut mae gwneud hyn yn effeithiol? Dyna'r cwestiwn mawr. Gallem wneud cymaint yn fwy, fe gredaf, i sicrhau bod ein heglwys yn fannau saff – ble mae pawb yn teimlo'n ganolog ac yn galonogol. Ry'n ni gyd ar adegau yn hoffi ein *cliques* capelaidd ac mae angen bod yn ofalus, gan nad oes dim gwaeth, am wn i, na theimlo'n anghyfforddus a neb yn siarad â chi. Wedi'r cyfan nid oes, yng ngolwg Duw, y 'nhw' a'r 'ni' – 'rydy[m] i gyd fel un teulu sy'n perthyn i'r Meseia Iesu.' (Galatiaid 3: 28)

Gwahodd, y gweledol, a gwneud

Mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Undeb yr Annibynwyr, cefais y fraint o glywed cyflwyniad gwerthfawr y Parchedig Casi Jones oedd yn ymdrin â bod yn gynhwysol, yn enwedig gyda phobl a phlant ag anghenion dysgu arbennig. Roedd gan Casi nifer o bwyntiau arbennig o dda inni eu hystyried (pwyntiau sy'n croesgyffwrdd â bod yn Dementia-gyfeillgar hefyd).

- Gwahodd** Cysylltu gyda chyfarfachiad / edrych ar y person ac ynganu eu henw / esboniad syml o drefn y cyfarfod os oes trefn ychydig yn wahanol / rhannu gair neu ystum o anogaeth i ymuno mewn. Yna - sgwrs cyn iddyn nhw ymadael / cynnig cyfle i gysylltu yn ystod yr wythnos / cyffyrddiad braich neu law os ydynt yn gyfforddus â hynny / ynganu eu henw eto.
- Gweledol** Arddangos delweddau ar sgrin fel modd o helpu'r meddwl i ganolbwyntio / taflen weithgaredd syml i gyffordduso'r rhai sy'n cael anhawster i aros yn llonydd / creu cornel dawel i fynd iddi. Mae ennyn ymateb ac annog hyblygrwydd yn dda – a rhyddid i'r plant neu unrhyw un i symud o gwmpas.
- Gwneud** Beth am geisio cynnal cyfarfodydd addoli mymryn yn wahanol weithiau megis 'Oedfa Baned' lle mae'r baned a'r bisgedi yn digwydd yn ystod yr oedfa ac awyrgylch anffurfiol / 'Oedfa Drafod' lle mae pregeth neu fidio neu ddarlun yn arwain i drafodaeth / 'Oedfa Gylch' lle mae'r cadeiriau mewn patrwm cylch a phawb yn hafal a gwirfoddolwyr yn ledio'r emynau a darlleniadau.

Mae cymaint o syniadau eraill y gallm fod yn rhoi tro arnynt ac yn hyn o beth cofiwn eiriau Simone Biles, y fabolgampwraig: 'Byddai'n well gen i ddifaru'r risg na weithiodd mas, na ddifaru'r cyfle na gymerais.'

Sian Meinir

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

TAIR BLYNEDD ANTURUS O'N BLAENAU – parhad

Threfeca gan ymweld ag amrywiol eglwysy a phrosiectau perthnasol. Ar un o'u dyddiau olaf yma gofynasant a fuasant yn cael arwain sesiwn. Yn y sesiwn hwnnw buont yn rhannu yr hyn a ddysgwyd ganddynt o fod yn ein plith ac yr oeddent yn ddiflewyn ar dafod. Codwyd nifer o faterion a chwestiynau diddorol ganddynt gan gynnwys:

Gweinidogaeth

Mae llawer o arweinyddion Cristnogol yn ymddangos fel pe baent wedi blino. Hefyd gallwch fod yn fewnblyg iawn gan edrych ar eu bogail eich hunain gan golli golwg ar y darlun mawr. Mae nifer o eglwysy'n ceisio cynnal gweinidogaeth lawn amser ond pa mor gynaliadwy yw hynny? Oni fyddai'n well cael gweinidogaeth ran amser lle mae gan weinidogion ffynhonnell ariannol arall. Gofynnwyd ganddynt a yw'r pwyslais yn ein plith yn ormodol ar blant ac ieuencid a bod perygl inni amddifadu'r rhieni o weinidogaeth effeithiol? Y mae cyfnod o 3 blynedd yn llawer rhy fyr i ariannu prosiectau.

Diwinyddiaeth

Beth yw'r rheswm diwinyddol a Beiblaidd am ein gweithgareddau? A ydym yn edrych yn ddiwinyddol ar holl waith ein heglwysy?

Hyrwyddo cydweithio

Mae gan yr enwadau yng Nghymru gynlluniau rhagorol ond mae nifer o'r prosiectau yn hynod o debyg i'w gilydd. Oni ddylid gwarantu bod strwythurau yn eu lle i hyrwyddo cydweithio? Mae'n amlwg mai'r hyn sy'n llethu eglwysy yw'r holl adeiladau. A ydych eu hangen? Os nad oes defnydd iddynt beth ydych yn mynd i'w wneud gyda hwy? Rydych yn wych am ddathlu eich hanes, mae hynny'n bwysig, ond faint o bwyslais a rowch chi ar gynllunio a datblygu'r eglwys i'r dyfodol. Pam nad oes rhagor o ferched yn y weinidogaeth a pham nad yw gweinidogion yn gwisgo gwisg glerigol?

Diolchwyd i Carwyn yn wresog iawn am y gwaith rhagorol y mae yn ei gyflawni.

(Bydd rhagor o Gyngor yr hydref yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.)

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

BRIN YN 100 OED? ANODD CREDU!



Llawenydd mawr i aelodau a chyfeillion eglwys Heol Awst, Caerfyrddin ynghyd â Maer a Maeres y Dref oedd uno mewn dathliad arbennig iawn bawn Mawrth 8 Hydref ar achlysur pen-blwydd un o ddiagoniaid yr eglwys, Mr Brinley Enoch yn 100 oed.

Roedd byrddau'r festri yn wledd i'r llygad, diolch i dîm ardderchog o chworydd yr eglwys, a phawb wedi cyd-dynnu er mwyn gwneud yn siŵr bod y prynhawn yn ddathliad haeddiannol i fonheddwr sy'n uchel iawn ei barch yn ein golwg ni i gyd.

Sefydlu busnes teuluol

Un o Benygroes, Sir Gaerfyrddin yw Brinley Enoch a anwyd ar 4 Hydref 1924. Cyfrifydd oedd wrth ei alwedigaeth a sefydlodd fusnes ei hun yng Nghaerfyrddin – busnes sy'n dal i fod yn nwylo gofalus y teulu gan i'w fab a'i ŵyr ddilyn ôl troed eu tad a'u tad-cu.

ofalaeth ar ei liniadur bob bore Sul! Mae'n bresenoldeb ffyddlon yn yr oedfaon yn Heol Awst ynghyd â digwyddiadau cymdeithasol yr eglwys, ac rydym yn elwa'n fawr o'i brofiad a'i ddoethineb mewn trafodaethau yn ein cyfarfodydd diaconiaid. Yn sgwrsiwr deallus a difyr ac yn meddu ar gof rhyfeddol, mae Brin yn ŵr gwybodus sy'n parhau i ychwanegu at ei wybodaeth drwy ddarlenn yn eang a chadw ei ddi-ddordeb yn nigywddiadau'r dydd. Does rhyfedd nad yw'n edrych ei oed!

Beibl a char open-top!

Wedi i'n gweinidog, Y Parchg Beti Wyn James ei gyfarch ar ran aelodau a chyfeillion eglwys Heol Awst, gwahoddwyd Brin i dorri'r gacen ben-blwydd arbennig a baratowyd ar ei gyfer. Roedd dwy ddelwedd bwysig sy'n nodweddiadol o fywyd Brin ar y gacen – car *open top* coch y gwelir Brin yn ei yrru'n ofalus o'r tŷ i'r capel! – a hefyd Beibl, a fu – ac sydd o hyd – yn 'lusern i'w draed ac yn llewyrch i'w lwybr'.

Bonheddwr wrth natur a Christion trwy ras yw ef. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Brinley Enoch a diolchwn am y fraint o gael dathlu'r garreg filltir bwysig hon yn ei gwmni.

BWJ

Presenoldeb ffyddlon

Afraid dweud fod Brin wedi gweld newidiadau mawr yn ystod ei oes hir, ond llwyddodd i addasu yn rhyfeddol gyda threigl y blynyddoedd ac mae'n dal i ddysgu o hyd gan feistroli'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf er mwyn gwrando ar oedfa ddigidol yr

Dydd Gweddi'r Byd
Is-bwyllor Cymraeg (Rhyngenwadol)

Cynhelir

Cynhadledd

yng Nghapel Bryngwenith
Henllan, Castell Newydd Emlyn

Dydd Mercher 13 Tachwedd

am 11.00

i baratoi ar gyfer

Dydd Gweddi 2025



Cyswllt: Parch. Carys Ann
Rhydlewis

Dydd Gweddi'r Byd
Is-bwyllor Cymraeg (Rhyngenwadol)

Cynhelir

Cynhadledd

yng Nghapel Y Rhos
Bae Colwyn

Dydd Mercher 20 Tachwedd

am 11.00

i baratoi ar gyfer

Dydd Gweddi 2025



Cyswllt: Mrs Miriam Lewis,
Hen Golwyn

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
Cyfundeb Gorllewin Morgannwg

Ar Daith

gyda'r Parchg Rhys Locke

... i Gapel Cymraeg
Peniel, Wisconsin
(UDA)

ac i Aberdâr gyda
Gwersyll Starfish



Saron, Bryncoch

Nos Fercher, 13 Tachwedd, 2024
am 7.00 p.m.

Croeso cynnes i bawb